

Grŵp Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr John Griffiths AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Tachwedd 2018

Annwyl Mr Griffiths


Ar 18 Hydref cyhoeddodd Julie James, Arweinydd y Tŷ, ddatganiad ysgrifenedig er mwyn tynnu sylw'r Aelodau at gais y Comisiwn Gwaith Teg am dystiolaeth. Lanswyd y cais hwn am dystiolaeth ar 12 Hydref drwy ei wefan <https://beta.llyw.cymru/comisiwn-gwaith-teg>.

Nododd y datganiad y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad fel rhan o'r cais am dystiolaeth.

Hoffai'r Comisiynwyr gyfarfod â Chadeiryddion y Pwyllgorau sydd â diddordeb arbennig yng nghanfyddiadau'r Comisiwn Gwaith Teg. O'r herwydd hoffai gyfarfod â chi, yn rhinwedd eich gwaith fel Cadeirydd Pwyllgor yr Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Russell George, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ac â Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

A fydddech cystal â rhoi gwybod a fyddwch chi a'ch Clerc ar gael i gyfarfod yr wythnos nesaf gyda Sharanne Basham-Pyke a'r Athro Edmund Heery yn Nhŷ Hywel yn y prynhawn ar 13, 14 neu 15 Tachwedd.

Yn gywir,



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.